Mae'r daith fer ond llawn golygfeydd hon o bentref poblogaidd ar yr arfordir yn cynnwys traeth tywodlyd trawiadol, safle castell canoloesol, chwedlau am diroedd o dan y tonnau a golygfeydd eang o aber Dyfi ac arfordir Bae Ceredigion.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd**: 7km/4.6 milltir.

**Amcan o'r amser**: 2 awr.

**Map AO**: graddfa 1:25 000 Explorer OL23.

**Man cychwyn/gorffen**: maes parcio glan môr Aberdyfi, SH613 959.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio**: Lleoedd parcio yng nghanol y dref, LL35 0ED.

**Bws**: Lloyd's Coaches X28 ac X29.

**Rheilffordd**: Mae llinell Arfordir Cambrian gwasanaethu Aberdyfi o Bwllheli a Chledrau'r Cambrian yn rhedeg o Fachynlleth ac Aberystwyth. www.thecambrianline.co.uk

**Toiledau**: ar lan y môr.

**Lluniaeth**: ceir nifer o siopau, caffis a thafarndai yn y dref sy'n gwerthu bwyd a diod.

## Nodwch

- Mae'r daith yn addas ar gyfer pob math o gerddwyr, gyda rhai llethrau digon hawdd eu dringo ac allt resymol ar y ffordd yn ôl i lawr.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf



1

Eryri
Mynyddoedd a Môr

Cylchdaith

# 18 Aberdyfi







1

## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

O'r maes parcio ar lan y môr, ewch tua gorllewin y dref gan fynd o dan y bont reilffordd. Mae arwydd yn dangos man cychwyn y daith, gyda'r llwybr yn cychwyn drwy ddringo uwchlaw'r dref a heibio'r man lle y dywedir yr arferai'r castell sefyll. Ewch ymlaen tua'r gorllewin o amgylch copa'r bryn tua Fferm Trefeddian ac yna ymlaen nes y cyrhaeddwch chi afon fechan heibio ymyl ddeheuol iard fferm yng Nghyrchnant. Cerddwch ymlaen ar hyd y lôn drol nes y mae'n uno â'r ffordd ac y gwelwch arwyddion am Lwybr Arfordir Cymru, yna trowch oddi ar y ffordd gan gerdded i lawr yn ôl i Aberdyfi.



2



1

## Mannau o ddiddordeb

Mae tref lan môr ddeniadol **Aberdyfi** ①, gyda'i thraeth tywodlyd braf a'r adeiladau hyfryd yn edrych dros y môr, wedi'i lleoli ar ochr ogleddol aber llydan yr afon Dyfi. Ffynnodd y dref o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen fel harbwr prysur yn allforio llechi a rhisgl derw. Roedd sawl iard gychod yma ac mae nifer o dafarndai hanesyddol yn y dref sy'n dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif. Cysylltwyd Aberdyfi â'r rhwydwaith rheilffordd ym 1863 ac ymestynnwyd y llinell yn ddiweddarach a'i chysylltu â glanfa, gan gynyddu'r gallu i fewnforio nwyddau, yn enwedig da byw o Iwerddon. Roedd cysylltiadau cryf rhwng y porthladd â phorthladd Lerpwl, a pharhaodd y cludo masnachol nes diwedd y 1950au.

Heddiw, mae'r dref yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hwylfyrddio a chwaraeon dŵr eraill megis hwylio a chanŵio. Gellir ei chyrraedd ar drên ar hyd llinellau Arfordir Cambrian a Chledrau'r Cambrian, sy'n cynnig golygfeydd hyfryd o'r glannau a'r cefn gwlad o'ch cwmpas. Mae clwb hwylio Dyfi yn trefnu rasys badau bach ar yr aber, ac mae amserlen brysur o ddigwyddiadau - ewch i **www.doveyyachtclub.org.uk**. Mae clwb golff y dref, a sefydlwyd ym 1892, yn fyd enwog ac mae'r aelodau cyfredol yn cynnwys Ian Woosnam, enillydd y Masters yn 1991. Mae'r dref yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd cul hudolus sy'n arwain oddi wrth y traeth, gydag enwau fel Stryd Copperhill yn adlewyrchu diwydiannau sydd bellach wedi hen ddiflannu.

Honnir bod safle **castell canoloesol** ② a godwyd yn y 1150au wedi'i leoli lle mae llwyfan band modern i'w weld heddiw uwchlaw'r dref - byddwch yn ei basio ar ddechrau'r daith. Ychydig filltiroedd o Aberdyfi mae olion Castell y Bere, un o'r cestyll mwyaf a godwyd gan Llywelyn Fawr, tywysog Cymru, ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg.

Mae arfordir Cymru wedi altro dros y canrifoedd ac mae arolygon archeolegol wedi canfod olion tanfor o'r oes Neolithig, rai 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Cysylltir y darn hwn o'r arfordir â llên gwerin o'r 6ed ganrif sy'n sôn am dir a gollwyd i'r môr, sef chwedl **Cantre'r Gwaelod** ③ Cofnodir y stori mewn llawysgrifau Cymreig canoloesol ac mae'n cyfeirio at foddi dinas yn y cyfnod canoloesol cynnar, y chweched ganrif o bosib, pan gafodd llifddor a ddylai fod yn dal y môr allan ei gadael ar agor gan warchodwr meddw o'r enw Seithenyn. Mae fersiynau eraill yn rhoi'r bai ar forwyn hardd o'r enw Mererid am esgeuluso'r llifddorau am ei bod yn cael ei herlid gan frenin serchus. Beth bynnag fo'r fersiwn, mae pawb yn cytuno y gellir clywed clychau'r ddinas goll yn canu o dan y don, a'u bod i'w clywed orau ar fore Sul tawel yn Aberdyfi.

# 18 Aberdyfi Circular walk

A stunning sandy beach, medieval castle site, tales of sunken villages, and far-reaching views of the Dyfi estuary and Cambrian coast are all part of this short but scenic walk which starts and finishes in this popular seaside town.

## Walk details

**Approx. distance:** 7km/4.6 miles.

**Approx. time:** 2hrs.

**OS Map:** 1:25 000 scale Explorer Map OL23.

**Start/finish:** Aberdyfi car park on sea front, SH613 959.

## Access and amenities

**Parking:** Parking provision in the town centre, LL35 0ED.

**Bus:** Lloyd's Coaches X28 & X29.

**Rail:** Cambrian's Coast Line services Aberdyfi from Pwllheli, and the main Cambrian Line runs from Machynlleth and Aberystwyth. www.thecambrianline.co.uk

**Toilets:** on the seafront.

**Refreshment:** there are a number of shops, cafes and pubs in the town providing food and refreshments.

## Please note

- The walk has some manageable uphill sections and a reasonable descent on the return leg.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf








## Walk directions

From the seafront car park head to the west of the town passing below the railway bridge, a signpost marks the start of the route with the path initially climbing above the town past the supposed site of a castle. Continue westwards around the summit of the hill to Trefeddian Farm and onwards until you follow the line of a small river past the southern edge of the farmyard at Crychnant. Continue along the track until it merges with the road. Then when you see the signage for the Wales Coast Path, leave the road and descend back to Aberdyfi.





## Points of interest

The attractive seaside town of **Aberdyfi** ①, with its fine sandy beach and attractive seafront properties, is located on the north side of the wide estuary of the Dyfi river. The town prospered from the 19th century onwards as a busy harbour exporting slate and oak bark. Several shipyards were located here and there are a number of historic pubs in the town. Aberdyfi was connected to the railway network in 1863 and the line was later extended, increasing the imports of goods, in particular livestock from Ireland. The town had strong links with the port of Liverpool and commercial shipping continued until the late 1950s.

Today the town is a popular location for windsurfing and other water sports such as sailing and canoeing. The Cambrian Coast railway enjoys picturesque views of the surrounding coast and countryside. The Dovey Yacht Club organises dinghy races on the estuary, and has a busy schedule of events - see www.doveyyachtclub.org.uk .The town's golf club, established in 1892, is world-renowned and current members include Ian Woosnam, Masters winner in 1991. The town has a network of attractive narrow streets off from the beachfront, with names such as Copperhill Street, reflecting long-since vanished industries.

It is claimed that a **medieval castle** ②, dating from the 1150s, was located where today a modern gazebo can be seen above the town, and is passed en-route at the outset of the walk. A few miles from Aberdyfi are the remains of Castell y Bere, one of the greatest castles built by the Welsh prince Llywelyn Fawr at the beginning of the 13th century.

The coastline of Wales has altered over the centuries and archaeological surveys have located submerged remains from the Neolithic period, some 4000 years ago. There is also the legend of **Cantre'r Gwaelod** ③ (English 'the lowland hundred') of land lost to the sea, recorded in medieval Welsh manuscripts and alludes to the drowning of a city in the early medieval period, possibly the 6th century, when a sluice gate to hold back the sea was left open by a drunken watchman named Seithenyn. Other versions blame a fair maiden, Mererid, for neglecting the gates as she was being pursued by an amorous king. Whatever version, all are in agreement that the bells of the lost city are to be heard ringing from under the seas, and the best time to hear them is on a quiet Sunday morning in Aberdyfi.

